Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Pen Barras

Dyddiad yr arolygiad: 02/02/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr a staff ymroddedig yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu Cymreig a chynhwysol i ddisgyblion, gan gofleidio'r weledigaeth, 'Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg', yn hynod lwyddiannus. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol y disgyblion at eu dysgu, sy'n cyfrannu'n dda at eu mwynhad o'u profiadau dysgu. Mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod berthnasol o fedrau ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan athrawon a chymorthyddion berthnasoedd gwaith gynhaliol â disgyblion, ac maent yn adnabod eu hanghenion lles a'u diddordebau dysgu yn fedrus. Maent yn fodelau iaith gwerthfawr i'r disgyblion gyda hyn, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau siarad Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion. Un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth yw'r profiadau cyfoethog mae disgyblion yn eu cael wrth iddynt feithrin eu doniau tra'n cymryd rhan mewn digwyddiadau a pherfformio mewn amrywiaeth eang o gystadlaethau lleol a chenedlaethol. Trwy hyn, mae disgyblion yn datblygu ystod eang o fedrau dysgu, personol a chymdeithasol pwysig.

Mae athrawon yn darparu ystod ddiddorol o weithgareddau yn briodol sy'n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn effeithiol. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n  cynllunio dilyniant ym medrau'r disgyblion yn ddigon bwriadus i'w cefnogi i wneud cynnydd adeiladol yn yr holl ystod fedrau dros amser.

Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau'r corff llywodraethol, yn adnabod cryfderau a meysydd datblygu'r ysgol yn briodol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau monitro a gwerthuso bob tro'n canolbwyntio'n ddigon bwriadus ar effaith y ddarpariaeth ar fedrau a chynnydd disgyblion, nac yn cyfrannu'n ddigon bwriadus at y broses o gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r ysgol yn rhan annatod o'r gymuned leol, gyda'r disgyblion yn cyfoethogi eu profiadau dysgu trwy ymweliadau buddiol yn llwyddiannus. Mae'r rhieni yn falch bod eu plant yn mynychu'r ysgol hon ac maent yn gwerthfawrogi'r cysylltiadau gwerthfawr wrth iddynt ymgysylltu'n fuddiol â dysgu eu plant.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn mesur effaith y ddarpariaeth ar ddysgu'r disgyblion

A2 Cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn yr holl ystod fedrau ar draws y meysydd dysgu dros amser

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026